TGAU

3010N10-1

**DYDD IAU, 26 MAI 2022 – PRYNHAWN**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 1: Barddoniaeth

## HAEN SYLFAENOL

**1 awr 15 munud a'ch amser estynedig**

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

CJ*(Z22-3010N10-1-MLP-A4-18)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

**Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).**

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

**Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.**

**UN CWESTIWN GORFODOL ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.**

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.**

**Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.**

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.**

**Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.**

**(Trowch y dudalen)**

1. Darllenwch y DDWY gerdd ganlynol yn ofalus.
**Yn y cerddi, mae'r beirdd yn cyfeirio at fynd allan i'r awyr agored.**

CYMHARWCH y DDWY gerdd gan ddangos sut maen nhw'n DEBYG a / neu'n WAHANOL.

Dylech wneud hyn drwy:

- ysgrifennu am gynnwys y ddwy gerdd yn eich geiriau eich hun, er enghraifft:
  - Pa fath o ddarlun o'r awyr agored mae'r ddau fardd yn ei ddisgrifio i ni?
  - Ydy'r ddau fardd yn sôn am fyd natur mewn ffyrdd gwahanol?
  - Meddyliwch beth yw'r neges yn y ddwy gerdd.
- edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am O LEIAF BEDAIR NODWEDD ARDDULL / MESUR a dweud pam maen nhw'n effeithiol
- nodi pa un o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn.

Wrth ateb, cofiwch **ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau. [40 marc]

(Trowch y dudalen)

## "WALKERS' WOOD"

**Bore hydrefol hyfryd oedd hi a Betws-y-coed bron yn wag o ymwelwyr. Lliwiau gwych ar y coed, dim acenion main i'w clywed ar y llwybr – oedd, roedd hi'n foment farddonllyd. Ond yna, dyma'r bychan yn holi a dyma weld bod y fusutors wedi gwneud llanast o'r lle mewn mwy nag un ffordd. Dyna'r drwg efo'r diwydiant ymwelwyr – maen nhw'n dod yma gan ddyheu am baradwys ac yn mynd o'ma gan adael y lle'n stomp.**

**'Oes 'na enw ar y coed 'ma, Dad?**
**– I mi gael dweud y stori fawr wrth Taid.'**
**'Coed Llugwy ydi'r enw arnynt, was,**
**Ond Walkers' Wood sydd yn y Betws Guide.'**

**'Pam fod y dail ar hyd y ddaear, Dad?**
**Pam fod eu lliw run fath â crisps yn awr?'**
**'Mae popty'r hydref wedi'u rhostio, was,**
**A'u taenu'n wledd ar hyd y llawr.'**

**'Ble ddaeth hon, y ddeilen felen, Dad,**
**A dannedd mân ar hyd ei hymyl hi?'**
**'Mae'i chwiorydd ar y gollen acw, was,**
**Sy'n rhannu ei gofidiau gyda'r lli.'**

**(Trowch y dudalen)**

**‘A hon, run lliw â cheiniog newydd, Dad?’**
**‘Mae twll ym mhwrs y ffawydd, beryg iawn.’**
**‘A’r rhain, fel darnau o jig-sô ’ta, Dad?’**
**‘Y dderwen acw ydi’r llun yn llawn.’**

**‘Oddi ar pa goeden y daeth nacw, Dad?**
**Mae’n wyrdd a glas, mae’n sgleinio yn y mwd.’**
**‘Paced o Walkers’ Crisps ’di hwnna, was,**
**Ar ôl y rhai fu’n crwydro Walkers’ Wood.’**

**Myrddin ap Dafydd**

(Trowch y dudalen)

## FY NGARDD

Mae gen i ardd o flodau
sy'n lliwgar yn yr haf,
a'r coed yn drwm a gwyrdd gan ddail
a'r haul yn t'wynnu'n braf.

Bydd dail y coed yn disgyn
yn felyn, brown a choch,
pan ddaw hen wynt yr hydref
i chwipio ar fy *moch.

Rhyw ddiwrnod yn y gaeaf,
a'r eira ar y coed,
daw blodyn bach a'i ben yn wyn
i dyfu wrth fy nhroed.

A phan ddaw'r gwanwyn heibio
daw blodau tlws, *di-ri',
a dail bach *melfed ar y coed
i lenwi ngardd fach i.

Lis Jones

*moch – boch, ochr yr wyneb
*di-ri' – gormod i'w cyfrif
*melfed – defnydd llyfn

DIWEDD Y PAPUR